

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Nuffield, Bae Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 23 a 24 Mawrth 2026

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mehefin 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83745-678-9

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	10
Ansawdd Profiad y Claf	10
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	16
4. Y camau nesaf.....	18
Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	20
Atodiad C – Cynllun gwella	21



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Nuffield, Bae Caerdydd ar 23 a 24 Mawrth 2026. Mae'r ysbyty yn darparu amrywiaeth o weithdrefnau achosion dydd, ymgynghoriadau a gwasanaethau diagnostig.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 15 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u iaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Roedd yr adborth gan gleifion mewn ymateb i'n harolwg yn gadarnhaol dros ben ym mhob maes. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a'u bod yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal, a gwnaethant ddweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' ar y cyfan.

Gwelsom bob aelod o'r staff yn siarad â'r cleifion mewn modd proffesiynol a charedig. Yn dilyn triniaeth, gwelwyd y staff yn trafod gofal a thriniaeth, gan gynnwys canlyniadau a chynghor ar ôl-ofal, â'r cleifion. Roedd hyn yn cael ei gyfleu mewn modd dealladwy a phwylllog, ac roedd aelodau o'r teulu yn bresennol lle y bo'n briodol.

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion i'w cefnogi gyda'u hopsiynau gofal a thriniaeth, gan gynnwys costau. Roedd hefyd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth ar gael yn yr ardaloedd aros i'r cleifion eu darllen a'u cadw.

Roedd y staff wedi cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant i'w cefnogi i ddarparu gofal a thriniaethau i gleifion mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo hawliau'r cleifion.

Roedd y cleifion a'u teuluoedd yn gallu rhoi adborth drwy amrywiaeth o ddulliau a oedd wedi'u hysbysebu'n dda. Roedd hyn yn cael ei ategu gan broses gwyno ffurfiol, ynghyd â chyfeiriadau priodol at sefydliadau allanol, yn ôl y gofyn. Gwnaethom edrych ar sampl o'r adborth a gwelsom fod yr adborth wedi cael ei gydnabod ac wedi derbyn ymateb o fewn amserlen briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr adborth ar brofiad cleifion yn nodedig ym mhob maes
- Gwelsom fod y staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd broffesiynol, garedig a dealladwy.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr amgylchedd yn fodern, mewn cyflwr da ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg, ac roedd hyn yn cael ei ategu gan amrywiaeth o asesiadau risg ac archwiliadau amgylcheddol.

Pe bai argyfwng meddygol, roedd trolïau brys a oedd yn cynnwys cyflenwadau digonol ar gael ar unwaith i'r staff. Roedd gwiriadau rheolaidd o'r cyfarpar hwn yn cael eu cwblhau fel mater o drefn.

Roedd pob ardal yn lân yr olwg, mewn cyflwr da, ac yn drefnus. Roedd hyn yn cael ei ategu gan bolisi atal a rheoli heintiau cynhwysfawr ac amrywiaeth o archwiliadau rheolaidd, a oedd wedi cael sgoriau da. Roedd amserlenni glanhau dyddiol yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl ardaloedd clinigol ac anghlinigol, ac roedd cwmni allanol wedi glanhau'r lleoliad yn drylwyr yn ddiweddar.

Gwelsom drefniadau rheoli meddyginiaethau da ar y cyfan. Roedd y prosesau rheoli stoc, gan gynnwys archebu, gwahanu a storio, er mwyn lleihau gwastraff a lleihau'r risg o wallau, yn cael eu cwblhau i safon nodedig.

Roedd yn gadarnhaol gweld y cleifion yn cael eu holi am eu lefelau poen a bod meddyginiaethau lleddfu poen yn cael eu darparu mewn modd amserol. Gwelsom fod teclyn cofnodi poen yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion a oedd yn cael endosgopi, a chadarnhaodd y lleoliad fod hyn yn arfer safonol ar gyfer pob gweithdrefn arall hefyd. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser wedi'i nodi yn y cofnodion a welsom.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau'n dda, a bod y cofnodion ysgrifenedig o safon broffesiynol dda. Ar gyfer cleifion a oedd yn cael eu trin fel achosion dydd, roedd asesiadau cynhwysfawr cyn-llawdriniaeth yn cael eu cynnal cyn eu derbyn, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn ôl yr angen. Roedd gwybodaeth am y drefn ar ôl llawdriniaethau ar gael i'r cleifion ei chadw, ac roedd y wybodaeth hon yn darparu digon o fanylion i hysbysu a chefnogi'r cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Roedd tîm amlddisgyblaethol yn ymdrin â gofal a thriniaeth, a gwelwyd dynameg tîm dda yn ystod yr arolygiad. Roedd swyddog meddygol preswyl ar gael yn ystod pob shift, a allai ymgynghori â'r tîm llawdriniaethau, yn ôl yr angen, pe bai unrhyw bryderon am unrhyw un o'r cleifion. Roedd llwybrau NEWS (Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol) a sepsis cydnabyddedig yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i ymateb yn briodol i gleifion sy'n dirywio.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid mynd i'r afael ar unwaith â'r adborth a gafwyd gan y staff ynghylch y goleuadau yn y theatr
- Dylid archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio teclyn cofnodi poen safonol ar gyfer ystod ehangach o weithdrefnau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cynlluniau gofal, asesiadau a gwybodaeth i gleifion yn cael eu darparu i safon glinigol dda
- Roedd pob rhan o'r ysbyty yn ymddangos yn lân a gwelsom arferion atal a rheoli heintiau da
- Roedd trefniadau da ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau, yn enwedig rheoli a storio stoc.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd adborth y staff yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda phob aelod o'r staff yn cadarnhau eu bod yn fodlon ar y gofal y mae'r cleifion yn ei gael, y byddent yn hapus i aelodau o'u teulu a'u ffrindiau gael gofal, ac mai gofalu am y cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad.

Er bod y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno, roedd tri aelod o'r staff yn teimlo y gellid gwella'r cymorth a ddarperir gan y sefydliad, cymryd camau mwy prydlon i wella, a'u cynnwys mwy mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu maes gwaith. Roedd pob aelod o'r staff ond dau wedi argymhell y sefydliad fel lle da i weithio.

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, rheoli ac arwain cyffredinol yr ysbyty. Roedd rheolwr ysbyty newydd wedi cael ei benodi'n fewnol yn ddiweddar. Roedd y staff yn gweithio mewn adrannau wedi'u diffinio'n glir, ac yn cael cymorth o ddydd i ddydd gan reolwyr yr adrannau.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn sôn am eu rolau mewn ffordd gadarnhaol ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ofal cleifion.

Fel y cyfeirir ato drwy gydol yr adroddiad hwn, roedd y staff wedi cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd prosesau da ar waith i oruchwylio cydymffurfiaeth â phynciau hyfforddiant, ac roedd y lefelau cydymffurfiaeth yn dda. Pan ofynnwyd iddynt yn ein harolwg, nododd pob aelod o'r staff eu bod wedi cael digon o hyfforddiant i gyflawni eu rôl.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Myfyrion ar yr agweddau ar adborth y staff a oedd yn awgrymu anfodlonrwydd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau goruchwylio da ar gyfer recriwtio staff, hyfforddi a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cawsom 12 o ymatebion gan gleifion, ac roedd pob un ohonynt ond un wedi cael llawdriniaeth yn y theatr. Roedd yr adborth a ddarparwyd yn hynod gadarnhaol ym mhob maes. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod pob cam, eu bod yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt, a'u bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Ar y cyfan, dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn dda iawn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Marciau llawn. Fel roeddwn wedi'i ddisgwyl, a gweithdrefn ryddhau dda"

"Amgylchedd hamddenol iawn, a digynnwrf. Mae'r gwasanaeth yn wych."

"Dim ond i ddweud fy mod wedi cael fy nhrin yn dda iawn gan bob aelod o'r staff."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth ar gael yn yr ardaloedd aros i'r cleifion eu darllen a'u cadw. Roedd gwybodaeth gynhwysfawr ar ôl llawdriniaeth, a oedd yn benodol i'r weithdrefn a gyflawnwyd, ar gael yn hwylus. Gwelwyd y staff yn trafod agweddau ar ofal a thriniaeth â'r cleifion, gan gynnwys canlyniadau a chyngor ar ôl-ofal. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei chyfleu mewn modd dealladwy a phwyllog, ac roedd aelodau o'r teulu yn bresennol lle y bo'n briodol.

Urddas a pharch

Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd proffesiynol a charedig.

Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd trin yn cael eu cau pan oeddent yn cael eu defnyddio, bod sgysiau'n cael eu cynnal â'r cleifion ar lefel sain briodol, a bod mynediad i'r ardaloedd clinigol wedi'i gyfyngu er mwyn hyrwyddo preifatrwydd a lleihau achosion lle byddai staff ac ymwelwyr yn tarfu ar sgysiau.

Roedd yr ardaloedd cyn ac ar ôl llawdriniaeth yn cynnwys cyfarpar cyfforddus, a oedd yn ymddangos yn lân ac mewn cyflwr da, i gefnogi anghenion y cleifion. Roedd llenni preifatrwydd ar gael pe bai eu hangen.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion i'w cefnogi gyda'u hopsiynau gofal a thriniaeth, gan gynnwys costau. Gwnaethom hefyd gadarnhau, yn y cofnodion a welsom, fod y cleifion wedi cydsynio cyn cael triniaeth ac wedi darparu eu hanes meddygol diweddaraf, yn unol â'r gofynion. Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr i'r arolwg y gofynnwyd iddynt am y wybodaeth hon cyn cael triniaeth, a bod y wybodaeth am unrhyw gostau yn glir.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth, a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall eu hopsiynau triniaeth, y risgiau a'r manteision.

Cyfathrebu'n effeithiol

Nododd pob un o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod wedi gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Roedd rhai arwyddion dwyieithog ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth i gleifion yn ddwyieithog i gleifion sy'n siarad Cymraeg. Gwnaethom nodi hefyd fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion a oedd am gyfathrebu mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y staff wedi cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant i'w cefnogi i ddarparu gofal a thriniaethau i gleifion mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo hawliau'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys pynciau hyfforddiant megis cydraddoldeb, cyfathrebu a galluedd meddyliol. Roedd lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn uchel.

Roedd y lleoliad yn hygyrch, ac roedd lifft a chyfleusterau toiled hygyrch ar gael. Gwelsom y staff yn cefnogi cleifion yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y cleifion a'u teuluoedd yn gallu rhoi adborth drwy amrywiaeth o ddulliau a oedd wedi'u hysbysebu'n dda. Roedd hyn yn cael ei ategu gan broses gwyno ffurfiol, ynghyd â chyfeiriadau priodol at sefydliadau allanol, yn ôl y gofyn.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r cwynion, a gwelsom eu bod wedi cael eu cydnabod a'u bod wedi cael ymateb o fewn amserlen briodol. Lle nodwyd gwersi i'w dysgu, roedd prosesau lleol a chorfforaethol yn cael eu defnyddio i rannu'r adborth hwn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yr amgylchedd yn fodern, mewn cyflwr da, ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd ardaloedd â mynediad cyfyngedig wedi'u nodi'n glir, a gwelsom gleifion yn cael eu tywys gan aelodau o'r staff, yn ôl yr angen.

Roedd amrywiaeth o asesiadau risg ac archwiliadau amgylcheddol ar waith. Roedd yn ymddangos bod yr asesiadau risg yn gynhwysfawr ac roeddent wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol o hyd. Roedd polisïau cynhwysfawr ar waith i gefnogi ymarfer priodol.

Roedd staff wedi'u lleoli yn yr ardal aros a'r ardal adfer i gleifion, ac roedd y staff clinigol yn gallu gweld yr ardaloedd hyn. Pe bai argyfwng meddygol, roedd trolïau brys a oedd yn cynnwys cyflenwadau digonol ar gael ar unwaith i'r staff. Roedd gwiriadau rheolaidd o'r cyfarpar hwn yn cael eu cwblhau a'u cofnodi fel mater o drefn. Cadarnhawyd bod y staff wedi cael hyfforddiant cynnal bywyd a oedd yn berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwirio yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Roedd yr holl sylweddau COSHH yn cael eu storio'n ddiogel.

Nodwyd gennym fod aelodau o'r staff wedi rhoi adborth yn sôn bod angen goleuadau newydd yn nenfwd y theatr. Cawsom sicrwydd bod camau interim a chamau terfynol wedi cael eu cymryd i ddatrys y mater hwn.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pob ardal yn lân yr olwg, mewn cyflwr da, ac yn drefnus. Roedd hyn yn cael ei ategu gan bolisi atal a rheoli heintiau cynhwysfawr ac amrywiaeth o archwiliadau rheolaidd, a oedd wedi cael sgoriau da.

Roedd amserlenni glanhau dyddiol ar waith ar gyfer pob ardal glinigol ac anghlinigol. Roedd cwmni allanol wedi glanhau'r lleoliad yn drylwyr yn ddiweddar er mwyn cefnogi amgylchedd clinigol diogel.

Roedd y staff cadw tŷ y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus am y tasgau a oedd yn gysylltiedig â'u rôl, ac roedd y staff clinigol yn deall pwysigrwydd y prosesau atal a rheoli heintiau a oedd yn berthnasol i'w hardaloedd clinigol. Roedd hyfforddiant staff mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau yn cael ei ddarparu ar lefelau a oedd yn briodol i rolau a chyfrifoldebau, ac roedd lefelau cydymffurfiaeth yn dda ar y cyfan.

Gwelsom y staff yn gwisgo ac yn diosg y cyfarpar diogelu personol priodol wrth fynd i mewn i'r theatrau, ac yn cynnal technegau hylendid dwylo da. Gwelsom fod pob aelod o'r staff clinigol yn noeth o dan y penelin.

Pan ofynnwyd iddynt, roedd pob claf o'r farn bod yr ysbyty yn lân iawn.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom drefniadau rheoli meddyginiaethau da ar y cyfan. Roedd y prosesau rheoli stoc, gan gynnwys archebu, gwahanu a storio, er mwyn lleihau gwastraff a lleihau'r risg o wallau, yn cael eu cwblhau i safon nodedig.

Gwelsom fod y prosesau ar gyfer storio, rhoi a chofnodi cyffuriau a reolir yn briodol.

Roedd tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth yn cael ei gofnodi'n rheolaidd, ac roedd pob meddyginiaeth yr oedd angen ei chadw'n oer neu ar dymheredd amgylchynol yn cael ei storio'n ddiogel drwy gydol yr arolygiad.

Roedd yn gadarnhaol gweld y cleifion yn cael eu holi am eu lefelau poen a bod meddyginiaethau lleddfu poen yn cael eu darparu mewn modd amserol. Gwelsom fod teclyn cofnodi poen a gydnabyddir yn genedlaethol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion a oedd yn cael endosgopi, a chadarnhaodd y lleoliad fod dulliau asesu poen safonol yn cael eu defnyddio ar gyfer arbenigeddau eraill. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth fod gwybodaeth am asesiadau o boen a theclynnau cofnodi poen yn cael ei chofnodi'n gyson. Rydym yn argymhell y dylai'r lleoliad archwilio'r canfyddiad hwn er mwyn parhau i wneud penderfyniadau effeithiol ynghylch yr angen am analgesia a sicrhau bod prosesau cadw cofnodion cadarn ar waith.

Dylai'r lleoliad archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio teclyn cofnodi poen safonol ar gyfer pob gweithdrefn berthnasol.

Nodwyd bod y lleoliad wedi datblygu ei ffurflen bresgripsiwn / dosbarthu meddyginiaethau ei hun ar gyfer yr adran cleifion allanol ym mis Mai 2025. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol o ran llywodraethu meddyginiaethau a lleihau risg. Fodd bynnag, dylai'r darparwr cofrestredig yn gyffredinol ystyried a oes angen proses safonol ar lefel gorfforaethol, ac yn ei ysbyty arall yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau lliniaru risg yn cael eu cymhwyso'n ehangach, lle y bo'n berthnasol.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried a oes angen cyflwyno'r ffurflen bresgripsiwn / dosbarthu meddyginiaethau yn ehangach.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn briodol ar gyfer rheoli ac uwchgyfeirio pryderon diogelu ynghylch oedolion a allai fod yn agored i niwed neu blant. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at gymorth corfforaethol, yn ôl yr angen.

Roedd arweinydd diogelu dynodedig yn y lleoliad ac roedd y staff yn gwybod â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt unrhyw bryderon. Cadarnhawyd bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y lleoliad amrywiaeth o ddyfeisiau, cyfarpar a systemau meddygol a oedd i bob golwg yn diwallu anghenion gofal a thriniaeth y cleifion. Roedd prosesau addas ar waith ar gyfer gwaith gwasanaethu a chalibradu rheolaidd gan gontractwyr allanol. Roedd system ar waith i alluogi'r staff i roi gwybod am broblemau, a gwelwyd bod y rhain yn cael eu cyfleu i'r contractwr perthnasol mewn modd amserol er mwyn lleihau'r effaith ar y gwasanaeth.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar gyfer cleifion a oedd yn cael eu trin fel achosion dydd, roedd asesiadau cynhwysfawr cyn-llawdriniaeth yn cael eu cynnal cyn eu derbyn, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn ôl yr angen.

Roedd tîm amlddisgyblaethol yn ymdrin â gofal a thriniaeth, a gwelwyd dynameg tîm dda yn ystod yr arolygiad. Roedd swyddog meddygol preswyl ar gael yn ystod pob shift, a allai ymgynghori â'r tîm llawdriniaethau, yn ôl yr angen, pe bai unrhyw bryderon am unrhyw un o'r cleifion.

Roedd llwybrau NEWS (Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol) a sepsis cydnabyddedig yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i ymateb yn briodol i gleifion sy'n dirywio. Roedd prosesau ar waith naill ai i gyflawni gweithdrefnau yn ysbyty cyfagos Nuffield Vale neu, pe bai cyflwr claf yn dirywio'n annisgwyl, i drosglwyddo cleifion i'r Adran Achosion Brys agosaf.

Roedd gwybodaeth am y drefn ar ôl llawdriniaethau ar gael i'r cleifion ei chadw, ac roedd y wybodaeth hon yn darparu digon o fanylion i hysbysu a chefnogi'r cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau'n dda, a bod y cofnodion ysgrifenedig o safon broffesiynol dda.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y lleoliad yn cwblhau rhaglen archwilio gan ddefnyddio templedi archwilio safonol. Roedd y rhain yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ac yn sgorio'n dda ar y cyfan. Roedd yr archwiliadau fel arfer yn cynnwys yr adnodd sepsis, poen, endosgopi, a diogelwch sganiau MRI.

Mae'r ysbyty hefyd yn cynnull Pwyllgor Cyngori Meddygol rheolaidd y mae ei rôl yn cynnwys cefnogi ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Dywedodd yr uwch-arweinwyr wrthym fod y Pwyllgor Cyngori Meddygol yn gweithio mewn modd cydweithredol ac yn cyfrannu'n dda at y broses o ddarparu gwasanaethau.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd y lleoliad yn defnyddio nifer o systemau digidol i roi gwybod am ddigwyddiadau, cwblhau archwiliadau, a chynnal a monitro hyfforddiant. Roedd yn ymddangos eu bod yn gweithio'n dda ac yn fodd o oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio ar system electronig, gyda mynediad cyfyngedig diogel. Roedd unrhyw ddogfennau papur yn cael eu cadw allan o'r golwg i atal mynediad heb awdurdod. Roedd archwiliadau cadw cofnodion a dogfennaeth yn cael eu cwblhau i gefnogi a monitro cydymffurfiaeth â pholisïau a safonau proffesiynol yr ysbyty.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Cafwyd 15 o ymatebion i'r arolwg gan aelodau o'r staff. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda phob aelod o'r staff yn cadarnhau eu bod yn fodlon ar y gofal y mae'r cleifion yn ei gael, y byddent yn hapus i aelodau o'u teulu a'u ffrindiau gael gofal, ac mai gofalu am y cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff hefyd eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl, eu bod wedi cael arfarniad o fewn y 12 mis diwethaf, a'u bod yn gallu bodloni'r gofynion gwrthgyferbyniol ar eu hamser.

Er bod y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno, roedd tri aelod o'r staff yn teimlo y gellid gwella'r cymorth a ddarperir gan y sefydliad, cymryd camau mwy prydlon i wella, a'u cynnwys mwy mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu maes gwaith. Roedd pob aelod o'r staff ond dau wedi argymhell y sefydliad fel lle da i weithio.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno bod yr uwch-reolwyr yn weladwy. Fodd bynnag, roedd dau aelod o'r staff yn teimlo y gellid cryfhau'r prosesau cyfathrebu.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

"Mae ein hadran yn lle braf iawn i weithio ac mae rheolwr [yr adran] yn anhygoel. Nid oes gan yr uwch-reolwyr yr un gydberthynas â'r staff, ac maent wedi gorfod addasu eu syniadau'n sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf ... Gobeithio y bydd yn newid yr ethos a'r diwylliant o fwrw bai sydd wedi bodoli am gyfnod rhy hir"

"Mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd fel rhan o dîm, ac mae'r rheolwyr yn barod iawn i helpu ac i ddeall."

"Mae Nuffield yn lle hyfryd i weithio. Mae'n bleser mawr gweithio yn yr amgylcheddau hyn, gyda'r staff, yr uwch-reolwyr a'r sefydliad. Allwn i ddim gofyn am well."

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, rheoli ac arwain cyffredinol yr ysbyty. Roedd rheolwr ysbyty newydd wedi cael ei benodi'n fewnol yn ddiweddar. Roedd y staff yn gweithio mewn adrannau wedi'u diffinio'n glir, ac yn cael cymorth o ddydd i ddydd gan reolwyr yr adrannau.

Roedd cyfarfodydd ar lefel leol a chorfforaethol yn helpu i weithredu a goruchwylio'r ysbyty. Roedd sgrymiau diogelwch dyddiol yn galluogi llif effeithiol o wybodaeth hanfodol am ddiogelwch cleifion bob bore.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd prosesau ar waith ac yn cael eu defnyddio'n helaeth i roi gwybod am ddiwyddiadau a digwyddiadau niweidiol, ac i ymateb iddynt. Gwnaethom edrych ar sampl o achosion a gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu a bod uwch-reolwyr wedi ymateb iddynt o fewn amserlen resymol. Roedd y staff yn rhoi gwybod am amrywiaeth o ddiwyddiadau, sy'n awgrymu diwylliant adrodd da.

Disgrifiodd yr uwch-arweinwyr nifer o fentrau diwylliant y gweithle a oedd wedi cael eu cynnal yn ystod y misoedd cyn yr arolygiad. Roeddent wedi cael eu cefnogi gan fewnbwn corfforaethol a hyrwyddwyr codi llais. Dywedwyd bod agweddau ar y gwaith hwn yn parhau.

Wrth ymateb i'n harolwg, cadarnhaodd pob aelod o'r staff fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau, bod y sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto, a bod adborth yn cael ei ddarparu. Roedd un ymatebydd o'r farn nad oedd y staff yn cael eu trin yn deg.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau staff er mwyn cadarnhau bod gwiriadau priodol wedi cael eu cynnal i sicrhau eu bod yn addas ac yn gymwys i gael eu cyflogi gan yr ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys gwirio manylion adnabod, DBS, cofrestriadau proffesiynol, a geirdaon.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn sôn am eu rolau mewn ffordd gadarnhaol ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ofal cleifion.

Fel y cyfeirir ato drwy gydol yr adroddiad hwn, roedd y staff wedi cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd prosesau da ar waith i oruchwylio cydymffurfiaeth â phynciau hyfforddiant, ac roedd y lefelau cydymffurfiaeth yn dda. Pan ofynnwyd iddynt yn ein harolwg, nododd pob aelod o'r staff eu bod wedi cael digon o hyfforddiant i gyflawni eu rôl.

Roedd pob aelod o'r staff ond un yn cytuno nad yw eu swydd yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd, bod y sefydliad yn gweithredu'n gadarnhaol mewn perthynas â llesiant, a bod eu patrwm gwaith yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:

Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol				
Canfyddiadau:					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Nuffield, Bae Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 23-24 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Risg gofal effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn	Dylai'r lleoliad archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio teclyn cofnodi poen safonol ar gyfer pob gweithdrefn berthnasol.	Rheoliad 15	<p>Mae'r teclyn asesu poen / cysur y cyfeirir ato yn declyn dilys a ddefnyddir yn benodol ym maes endosgopi, ac mae'n cyd-fynd â safonau'r Grŵp Cynghori ar y Cyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol asesu a chofnodi cysur cleifion yn ystod gweithdrefnau endosgopig.</p> <p>Mae'r teclyn hwn wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio yn ystod gweithdrefnau er mwyn helpu i asesu lefelau cysur y claf mewn amser real a monitro ansawdd yn gyffredinol, ac felly nid oes modd ei gymharu'n uniongyrchol â theclynnau sgorio poen safonol a ddefnyddir mewn meysydd clinigol eraill.</p> <p>Y tu allan i faes endosgopi, mae'r sefydliad yn defnyddio dulliau asesu poen safonol sefydledig sy'n briodol i bob arbenigedd.</p>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	Wedi'i gwblhau

2.	-	Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried a oes angen cyflwyno'r ffurflen bresgripsiwn / dosbarthu meddyginiaethau yn ehangach.	Rheoliad 15	<p>Mae fframwaith safonol Nuffield Health ar gyfer presgripsiynau / dosbarthu meddyginiaethau i gleifion allanol eisoes ar waith ar lefel sefydliadol ac yn cael ei ddefnyddio ar draws holl ysbytai Nuffield Health. O fewn y fframwaith hwn, gall gwasanaethau roi prosesau ar waith sy'n adlewyrchu eu gofynion gweithredol penodol. Felly mae ein hadran cleifion allanol wedi datblygu ffurflen wedi'i haddasu'n lleol i helpu i gyflenwi eitemau megis meddyginiaeth paratoi'r coluddion yn ddiogel. Mae hyn yn sicrhau bod y broses yn gymesur, yn hawdd ei defnyddio, ac yn cyd-fynd â natur a lefel y gweithgarwch a gyflawnir o fewn y gwasanaeth hwn, gan barhau i gydymffurfio ag egwyddorion allweddol polisi'r sefydliad.</p> <p>Rydym wedi ystyried yr argymhelliad i safoni'r ffurflen hon yn ehangach. Fodd bynnag, mae'r prosesau ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau i gleifion allanol yn amrywio ar draws safleoedd Nuffield Health, yn dibynnu ar natur y gwasanaethau a ddarperir, ac o ganlyniad, efallai na fyddai un fformat safonol yn briodol nac yn ychwanegu gwerth ym mhob lleoliad. Mae'r dull presennol yn caniatáu cysondeb o ran egwyddorion llywodraethu ar lefel gorfforaethol, gan alluogi pob safle i deilwra ei ddogfennaeth at anghenion penodol ei wasanaeth er mwyn sicrhau ymarfer diogel ac effeithiol.</p>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	Wedi'i gwblhau
----	---	--	-------------	---	-----------------------------------	----------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Rob Thomas

Swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty/ Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 20 Mai 2026